

## COLEG GŴYR ABERTAWE

|                                  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                           |
|----------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Enw'r Pwyllgor</b>            | Y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                                                                           |
| <b>Aelodaeth</b>                 | <b>Penderfynwyd gan:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Bwrdd y Gorfforaeth                                                                       |
|                                  | <b>Nifer yr aelodau:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | 6                                                                                         |
|                                  | <b>Cadeirydd:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               | Colin Cornelius                                                                           |
|                                  | <b>Aelodau:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | David Ashelby<br>Colin Cornelius<br>Tim Clark<br>Carol Green<br>Robin Kirby<br>Fiona Rees |
| <b>Swyddogion Adrodd</b>         | <p>Gall y Pwyllgor ofyn am bresenoldeb aelodau o'r tîm Gweithredol os bydd angen</p> <p>Bydd y Pwyllgor yn cael mynediad at ganllawiau a / neu hwyluso allanol ar gyfer Eitem 14 isod</p>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                           |
| <b>Ysgrifenyddes Gwasanaethu</b> | Clerc y Gorfforaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                           |
| <b>Cylch Gorchwyl</b>            | <p><b>Chwilio</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Gwneud argymhellion i'r Gorfforaeth ar benodiad/aibenodiad Aelodau Busnes, Cyfetholedig ac Aelodau'r Awdurdod Lleol a'r Gymuned</li> <li>Cynghori ar faterion eraill o'r math yn ymwneud ag aelodaeth a phenodiadau y gallai'r Gorfforaeth eu cyflwyno i'r Pwyllgor, gan ystyried darpariaethau'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu statudol bob amser</li> <li>Datblygu a chynnal, drwy broses gyfweld a geirdaon cyfrinachol, cronfa ddata o ymgeiswyr a argymhellir ar gyfer aelodaeth o'r Gorfforaeth yn y dyfodol (Cronfa Ddata'r Clerc)</li> <li>Cychwyn chwiliadau am ddarpar ymgeiswyr ar gyfer</li> </ol> |                                                                                           |

|  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | <p>aelodaeth o'r Gorfforaeth os oes angen trwy ymgynghori â chyrff, sefydliadau a/neu unigolion sydd â diddordeb a rhoi hysbysebion amserol yn y cyfryngau lleol/rhanbarthol a/neu mewn cyhoeddiadau cymunedol perthnasol</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>5. Penderfynu ar y broses lle mae ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer aelodaeth o'r Gorfforaeth a chael sicrwydd ynghylch eu cymhwyster o dan yr Offeryn Llywodraethu</li> <li>6. Goruchwyllo gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth o ran aelodaeth o'r Gorfforaeth a'r Pwyllgorau, gan gynnwys cyfleoedd datblygu perthnasol</li> <li>7. Adolygu pob agwedd ar y dadansoddiad sgiliau ac amrywiaeth diweddaraf mewn perthynas ag aelodaeth gyfredol o'r Gorfforaeth cyn ystyried unrhyw benodiad newydd</li> <li>8. Adolygu cyfansoddiad a chydbwysedd aelodaeth o'r Gorfforaeth a'r Pwyllgorau yn rheolaidd a gwneud argymhellion priodol</li> <li>9. Sicrhau na fydd enwau ymgeiswyr o dan ystyriaeth yn cael eu rhyddhau i'r Gorfforaeth nes bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r corff hwnnw, am resymau cyfrinachedd</li> </ol> <p><b>Llywodraethu</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>10. Cymeradwyo penodiad / ailbenodiad aelodau priodol o'r Gorfforaeth fel Llywodraethwyr â chyfrifoldeb perthnasol o dan y Polisiâu Diogelu Plant ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed</li> <li>11. Datblygu ac argymell i'r Gorfforaeth polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer dull ymsefydlu a datblygiad llywodraethu'r Gorfforaeth a goruchwyllo eu gweithrediad</li> <li>12. Cymeradwyo ac adolygu yn flynyddol Is-ddeddfau, Cod Ymddygiad a Chofrestr Buddiannau'r Gorfforaeth</li> <li>13. Cymeradwyo ac adolygu yn rheolaidd holl bolisiâu a gweithdrefnau eraill y Gorfforaeth sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor</li> <li>14. Datblygu ac argymell i'r Gorfforaeth meini prawf ar gyfer gwerthuso perfformiad y Gorfforaeth yn gyffredinol a bydd y meini prawf hyn yn rhan o hunanasesiad llywodraethu blynyddol yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt gan y Gorfforaeth</li> </ol> |
|--|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|  |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|--|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | <p>15. Nodi a blaenoriaethu anghenion datblygu'r Gorfforaeth a'i Haelodau er mwyn darparu amserlen flynyddol i ddatblygu llywodraethwyr a fydd yn arwain at welliannau cynyddol ym mherfformiad y Gorfforaeth</p> <p>16. Monitro presenoldeb Aelodau'r Gorfforaeth yng nghyfarfodydd y Gorfforaeth a'i Phwyllgorau a chymeradwyo camau gweithredu priodol yn ôl yr angen</p> <p>17. Ystyried yr holl faterion llywodraethu o ganlyniad i adolygiadau mewnol a/neu adolygiadau allanol Coleg Gŵyr Abertawe a sicrhau bod camau adferol priodol yn cael eu cymryd</p> <p>18. Adolygu a, lle bo'n briodol, ymateb i ddogfennau ymgynghori gan gyrff allanol, fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n ymwneud â materion llywodraethu</p> <p>19. Cael ac adolygu adroddiad blynyddol sy'n cadarnhau bod yr holl gofnodion perthnasol yn ymwneud ag aelodaeth o'r Gorfforaeth wedi cael eu diweddarau yn amserol</p> <p>20. Adolygu ac argymhell cymeradwyaeth y Gorfforaeth o Adroddiad Blynyddol y Clerc, i'w gyflwyno i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau</p> <p>21. Cynnal adolygiadau rheolaidd o Gylch Gorchwyl Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Gorfforaeth ac argymhell unrhyw ddiwygiadau i'r Gorfforaeth</p> <p>22. Ystyried unrhyw fater llywodraethu a gyfeiriwyd gan y Gorfforaeth neu un o'i Phwyllgorau</p> <p><b>Arall</b></p> <p>23. Bydd gan y Pwyllgor y pŵer i ddefnyddio gwasanaethau cynghorwyr allanol fel y tybia'n angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau</p> <p>24. Gall y Pwyllgor wahodd unrhyw un, boed yn Llywodraethwr neu rywun allano, i ddod i Goleg Gŵyr Abertawe er mwyn rhoi cyngor a thystiolaeth i gynorthwyo gyda'r broses chwilio a/neu i wirio ei annibyniaeth</p> <p>25. Ni fydd y Gorfforaeth yn penodi unrhyw Aelod o'r Gorfforaeth i'r categorïau Busnes, Cyfetholedig, yr Awdurdod Lleol a/neu'r Gymuned oni bai ei bod wedi ystyried cyngor y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu yn gyntaf</p> |
|--|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

|                                                    |                                                                                                                                                      |
|----------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cworwm</b>                                      | O leiaf 40% o gyfanswm nifer yr Aelodau o'r Pwyllgor (3)                                                                                             |
| <b>Gweithdrefnau Adrodd</b>                        | Bwrdd y Gorfforaeth                                                                                                                                  |
| <b>Amllder Cyfarfodydd</b>                         | O leiaf unwaith y tymor.                                                                                                                             |
| <b>Adolygwyd y Cylch Gorchwyl a'r Cyfansoddiad</b> | Cymeradwywyd 14 Mehefin 2010<br>Diweddarwyd 12 Mai 2011<br>Ychwanegwyd aelodau newydd 27 Medi 2012<br>Diweddarwyd Medi 2013 i gadarnhau'r cworwm o 3 |